# CYD-BWYLLGOR GWE DYDD MERCHER, 22 MAI 2019

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Phil Wynn (Cadeirydd - Cyngor Bwrdeistrefol Siriol Wrecsam), Garffild Lewis (Is-Gadeirydd – Cyngor Bwrdeistrefol Conwy), Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn) a Cemlyn Rees Williams (Cyngor Gwynedd).

**Swyddogion heb bleidlais:** Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig), Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Dafydd Ifans (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy).

**Swyddogion yn bresennol:** Sion Huws (Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd), Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Mon), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Gareth Williams (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE), Bethan Roberts (GwE), Annes Sion (Swyddog Cefnogi Aelodau yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd).

**Sylwebydd:** Delyth Gray (Estyn)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Etholwyd Cyng. Phill Wynn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) yn Gadeirydd ar gyfer 2019/20.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd Cyng. Garffild Lewis (Cyngor Bwrdeistref Conwy) yn Is-gadeirydd ar gyfer 2019/20.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod, yn benodol Cyng. Cemlyn Williams i'w gyfarfod cyntaf o Gyd-bwyllgor GwE a Delyth Gray a oedd yn bresennol fel Sylwebydd o Estyn. Bu i'r Cadeirydd longyfarch y Cyng. Ian Roberts ar ddod yn Arweinydd Cyngor Sir y Fflint. Anfonwyd cydymdeimlad at Arwyn Thomas yn dilyn profedigaeth ddiweddar.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Haf Williams (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Ian Roberts (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam) ac Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE).

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 20 Chwefror 2019 fel rhai cywir.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE 2018/19

PENDERFYNIAD

Derbyn yr Adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod mwyafrif o'r wybodaeth wedi codi o drefn rheoli perfformiad GwE. Ychwanegwyd fod yr adroddiad yn ceisio cael cydbwysedd rhwng perfformiad GwE yn ystod y flwyddyn, a'r camau ar gyfer y dyfodol. Ategwyd fod y blaenoriaethau sydd i'w gweld yn yr adroddiad yn bwydo mewn i Gynllun Busnes GwE ar gyfer 2019-20.

Codwyd y mater o ganlyniadau Saesneg yn ystod arholiadau TGAU. Mynegwyd y bydd trafodaeth yn ail gychwyn gyda Phrif Weithredwr Cymwysterau Cymru, Philip Blaker yn fuan gyda Phenaethiaid Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych yn dilyn cyfnod o beidio ymgysylltu. Anogwyd y Cynghorwyr i drafod â Phenaethiaid Ysgolion Uwchradd eraill y rhanbarth, ac i gysylltu â Chymwysterau Cymru er mwyn ail gychwyn y drafodaeth. Ategwyd y bydd Pennaeth Addysg Sir Ddinbych yn adrodd yn ôl yn dilyn y cyfarfod.
Mynegwyd fod cynllun Shirley Clarke yn parhau ac yn llwyddiannus, gyda'r 27 ysgol sydd yn rhan o haen 1 wedi bod yn rhannu eu sgiliau â ysgolion haen 2. Ychwanegwyd fod y daith ddiwygio yn parhau ac yn integredig â phob agwedd o waith GwE. Ategwyd fod gan y daith ddiwygio rôl allweddol yn cefnogi'r Gymraeg. Nodwyd fod y blaenoriaethau strategol yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd i'r staff am yr adroddiad gan nodi fod cyfnod heriol o flaen GwE.

## 8. CYNLLUN BUSNES LEFEL 1 2019/20

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd y Cynllun Busnes gan nodi ei fod yn adlewyrchu'r blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Nodwyd fod y Cynllun yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Llywodraeth.

Tynnwyd sylw at flaenoriaethau'r Cynllun Busnes a oedd yn cynnwys datblygu a gwella darpariaeth gyda'r prif ffocws ar arweinyddiaeth lefel ganol o safon uchel. Mynegwyd fod y maes anghenion dysgu ychwanegol yn flaenoriaeth yn ogystal â chwricwlwm trawsnewidiol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd mai'r risg mwyaf ar hyn o bryd yw sefyllfa ariannol Awdurdodau Lleol - o dan y toriadau sydd wedi bod i gyllidebau Awdurdodau Lleol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, risg i ysgolion wynebu toriadau pellach.
- Nodwyd o ganlyniad i'r newidiadau mawr gyda trawsnewid y cwricwlwm fod nifer o athrawon â blynyddoedd o brofiad yn gadael y maes addysg. Mynegwyd yr angen am greu cofrestr risg penodol ar gyfer hyn o ran ei effaith ar athrawon, rhieni a disgyblion.
- Tynnwyd sylw penodol at y mater fod angen i GwE gyfarch yr arbedion fel bod datrysiad tymor hir. Awgrymwyd bod angen i'r adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu gael ei wneud cyn mis Hydref yn barod ar gyfer mis Mawrth.
- Mynegwyd fod y cynllun busnes yn cyd-fynd ag amcanion cenedlaethol.

**9. CYFRIFON GWE 2018/19**

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn nodi'r Incwm Refeniw a'r Cyfrif Gwariant ym 2018/19. Tynnwyd sylw at yr amrywiadau ariannol. Nodwyd fod tanwariant o ran gweithlu yn bennaf o ganlyniad i secondiad Cyfarwyddwr Cynorthwyol. Ychwanegwyd fod gorwariant gydag Adeiladau a bod hyn o ganlyniad i GwE ddim yn cyfarfod targed incwm, a Chyflenwadau a Gwasanaethau gan fod y costau cyfieithu wedi codi gan nad yw GwE wedi gallu penodi cyfieithydd.

Mynegwyd fod sefyllfa ariannol GwE ar 31/03/2019 yn daclus iawn, ond fod angen adnabod arbedion parhaol erbyn Hydref 2019.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30y.b a daeth i ben am 11:20y.b

**CADEIRYDD**